**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID/PO/0127/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Mai 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dilynol dyddiedig 8 Ebrill ar ran Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynglŷn â pha mor effeithiol a chynaliadwy yw'r ffordd yr ydym yn rheoli Ardaloedd Draenio Mewnol ar hyn o bryd, a diolch ichi hefyd am rannu barn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Undeb Amaethwyr Cymru (UAC).

Rwy'n cydnabod y pryderon am rôl a model gweithredu presennol y Byrddau Draenio Mewnol a'r Ardaloedd Draenio Mewnol gan eu bod yn bryderon y mae pobl wedi'u codi'n uniongyrchol gyda mi.

Ceir wrth reswm gwestiynau sylfaenol ehangach y mae angen inni fynd i'r afael â nhw wrth ystyried sut yr ydym am addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, a'r hyn y mae hynny'n ei olygu, nid yn unig o ran draenio tir ond hefyd o ran rheoli perygl llifogydd yn ehangach. Rydym yn dystion i achosion mwy mynych o dywydd eithafol a fydd yn arwain at fwy o berygl o lifogydd i gymunedau ledled Cymru ac at achosion lle bydd tir amaethyddol o dan ddŵr.

Rwyf wedi bod yn ystyried fy mlaenoriaethau ar gyfer y portffolio yn ofalus ers imi ymgymryd â fy swydd gyfredol, ac rwyf wedi bod yn glir bod yn rhaid i unrhyw weithgarwch arwain at ganlyniadau ystyrlon a dangos hefyd fod ymgysylltiad priodol â'r rheini sydd â diddordeb a buddiant yn y mater. O ran adolygu'r model gweithredu cyfredol, nid ar chwarae bach y byddai gwneud hyn gan y byddai'n golygu mynd at wraidd yr heriau niferus sy'n ein hwynebu wrth geisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cynnal rôl y tir ar gyfer lleihau llifogydd a chefnogi amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Am y rheswm hwnnw, rwyf wedi dod i'r casgliad na fedrwn neilltuo adnoddau ar gyfer y math o adolygiad sydd yn fy marn i ei angen ar hyn o bryd.

Er bod hyn rwy'n siŵr yn destun siom i randdeiliaid, rwyf am annog deialog fywiog ynglŷn â ffyrdd cynaliadwy o reoli perygl llifogydd all cryfhau cymunedau a pherchenogion tir, a pharhau yr un pryd i addasu i fygythiadau'r newid yn yr hinsawdd. Ond gallai unrhyw gyfraniad gan bwyllgor ETRA i'r maes fod yn ddefnyddiol a gwybodus. Yn wir, gallai'r materion hyn fod o ddiddordeb hefyd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd.

Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion gadw llygad ar y sefyllfa a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fyddaf mewn sefyllfa i wneud hynny.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs